Ac wrth fynd heibio gwelodd Lefi fab Alffeus yn eistedd wrth y dollfa, a dywedodd wrtho, “Canlyn fi.” Cododd yntau a chanlynodd ef.
(Marc 2:14)

Dyma Iesu’n galw un o’i ddisgyblion. Byddai llawer o arweinwyr Iddewig wedi anwybyddu casglwr trethi, ond dewisodd Iesu ei gynnwys yn y deuddeg a’i ddefnyddio fel un o’i fywgraffyddion. Os oedd lle i rywun fel Lefi / Mathew yn amser Iesu, mae lle i rai gwrthodedig yn ei deyrnas heddiw hefyd.

Casglwr trethi

Roedd Mathew, er yn Iddew, yn casglu trethi i’r Rhufeiniaid yn y pendraw. Roedd yn cael ei gyflogi gan brif gasglwr trethi (fel Sacheus) a oedd fel tenant i gadfridog / amaethwr, Rhufeiniwr oedd yn talu’n ddrud i goffrau’r ymerodraeth i gael yr hawl i gasglu trethi cyhoeddus.

Roedd Capernaum yn un o’r tair swyddfa drethi yn Israel, gyda Jericho a Chesarea. Byddai llawer o fynd a dod trwy’r dref gan ei bod ar briffordd ryngwladol rhwng Syria a’r Aifft. Felly, byddai trethi trwm yn cael eu codi ar unrhyw nwyddau fyddai’n dod iddi.

Roedd gan y casglwyr trethi enw drwg am fynnu llawer gormod o dreth ac am fod yn gribddeilwyr. Os oedd y publican yn Iddew, byddai ei gyd-genedl yn ei gasáu fel bradwr anffyddlon i’w wlad a’i grefydd wrth iddo wasanaethu gormeswr estron, paganaidd fel Rhufain. Roeddent yn cael eu henwi yn yr un gwynt â phechaduriaid yn aml.

Roedd Iesu, fodd bynnag, am gynnwys Lefi yn y deuddeg, ac roedd yntau’n barod iawn i’w ddilyn. Yn wir, mae Luc yn dweud ei fod yn ‘gadael popeth’ (5.28). Roedd ganddo fwy i’w golli na’r pysgotwyr a allai fynd i bysgota unrhyw bryd, oherwydd roedd yntau’n gadael ei waith yn derfynol.

Mae’n amlwg ei fod yn hyddysg yn yr Hen Destament, yn awdur talentog a ysbrydolwyd gan yr Ysbryd Glân nes ymlaen. Roedd yn gyfarwydd â Hebraeg, Aramaeg a Groeg. Roedd hefyd yn lletygar, fel mae’r cyd-destun yn dangos.

Pechaduriaid

Roedd y rhai nad oedd yn derbyn dehongliad y Phariseaid o’r Gyfraith yn cael eu hystyried yn ‘bechaduriaid’. Roedd Iesu ei hunan yn ffitio i’r grŵp yma, gan ei fod yn anwybyddu eu seremoni golchi dwylo cyn bwyta a’u mân reolau ynglŷn â’r Saboth. Wrth gwrs, roedd llawer yn y categori oedd yn amlwg yn bechaduriaid hefyd, heb barchu Cyfraith Duw, ac mae’n siŵr bod llawer o’r rheini yn y wledd yng nghartref Mathew. Mae Mathew yn rhesymu y byddai Iesu’n fodlon siarad â nhw os oedd yn fodlon ei gynnwys ef ymhlith ei ddisgyblion

agosaf. Felly, mae'n gwahodd ei ffrindiau a Iesu i'r un swper yn ei gartref. Nid fod Iesu'n esgusodi pechod neb; roedd wedi dod i wella'r 'cleifion' ysbrydol.

Ysgrifenyddion o blith y Phariseaid

'Doedd pob ysgrifennydd ddim yn Pharisead. Eu gwaith oedd bod yn ysgrifenyddion, a'u dewis oedd perthyn i sect arbennig. Mwy na thebyg, gwelodd y rhain y gwesteion yn dod o'r wledd, a chan eu bod yn rhy llwfr i holi Iesu, dyma ofyn i'r disgyblion pam oedd Iesu'n mynnu cymdeithasu â'r fath bobl. Roedd rheol gan y rabiniaid oedd yn dweud: *"Ni ddylai disgyblion y dysgedig eistedd wrth y bwrdd yng nghwmni pobl y pridd"* sef y bobl oedd yn anwybodus ynglŷn â'r Gyfraith.

Iesu

Mae gweithred Iesu yn galw Mathew ac yn cyd-fwyta â'i ffrindiau yn dangos pwrpas ei ddyfodiad i'r byd. Pe byddai'n rhaid i'r byd fod yn dda, fyddai Mab Duw fyth wedi dod yma. Daeth yma o'i fodd i fod yn Waredwr. Roedd hynny'n golygu bod yn feddyg i gleifion ysbrydol a galw pechduriaid i edifeirwch a maddeuant, gan nad oedd angen maddeuant ar y rhai oedd yn tybio eu bod yn gyfiawn.

"Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwiwedig rai;
dyma un sy'n caru maddau
i bechaduriaid mawr eu bai;
diolch iddo
byth am gofio llwch y llawr." (Morgan Rhys)

Gwaith Gwaredwr yw achub yr anghenus, nid edliw iddo ei gael ei hun i drafferth. Gwaith ffynnon yw glanhau'r sawl sy'n fudr, nid edliw iddo ei fudreddi. Dyna agwedd Crist. Er fod hawl ganddo i edliw inni a gwrthod ein glanhau, nid dyna'i ddewis, ond ein hachub trwy gymryd cosb ein pechod arno fe'i hun ar groes Calfaria.

Neges

Mae dwy neges bwysig i ni fel Cristnogion yn y darn yma:
Rhaid i ni beidio byth â meddwl na all rhai mathau o bobl fod yn ddisgyblion Crist yn y byd. Dydy'r bobl sy'n wrthodedig gan gymdeithas ddim y tu hwnt i ras Crist.
Rhaid i ni ddysgu cymdeithasu â nhw mewn ffordd sydd yn cynnig gwaredigaeth iddynt, heb esgusodi unrhyw bechod. Ni ddaeth Crist i gondemnio ond i achub, a dyna'n gwaith ninnau hefyd.